

DAMHEGION AM Y DEYRNAS.

Emyn: 320 ‘lesu, lesu, ‘rwyt ti’n ddigon.’ [Neu 399].

Darlleniad: Mathew 13:44-46.

Neges: Mae'r ddwy ddameg yn y darlleniad yn cyfeirio at rywbedd gwerthfawr, sef y newyddion da am Iesu Grist.

1.DARGANFOD Y TRYSOR: Yn hyn mae'r ddaau ddyn yn wahanol. Nid oedd y person a wnaeth ddarganfod y trysor yn chwilio amdano; ei ddarganfod trwy ddamwain a wnaeth oherwydd roedd wedi ei guddio mewn maes. Modd bynnag, roedd y masnachwr wedi bod yn chwilio yn ddyfal am berlau gwych ac o'r diwedd daeth o hyd i un gwerthfawr.

Onid felly yw profiad ysbrydol llawer – mae rhai'n dod yn sydyn at Grist tra bydd eraill yn dod ato dros amser.

Mae rhai pobl heb ddiddordeb o gwbl yng Nghrist na'i bethau. Nid ydynt yn chwilio am Iesu ac yn mynd ymlaen a'u bywydau heb feddwl dim, ond yn sydyn mae'r efengyl yn gafael ynddynt! Maent yn gweld eu cyflwr truenus ac yn galw ar y Gwaredwr am faddeuant. Cofier, gwaith Duw yw hyn i gyd!

Bydd eraill yn chwilio am Dduw ond heb Ei wir adnabod am amser hir. Er bron anobeithio ar adegau, maent yn canfod y perl ac yn dod i gredu yn Iesu Crist. Cofier eto, gwaith Duw yw iachawdwriaeth ac mae Duw wedi bod ar waith yn chwilio amdano ef neu hi. *‘It was not I that found, O Saviour true; No, I was found of thee.’*

2. GWEITHREDU’N GYWIR: Er y gwahaniaeth yn y darganfod, mae ymateb y ddaau pan wnaethant ddarganfod y trysor yn debyg. i) Mae'r ddaau yn gweld bod y trysor/perl yn werthfawr. A dyna yw efengyl Iesu Grist. Dyma yw profiad Paul yn Rhufeiniaid: *‘Nid oes arnaf gywilydd o'r Efengyl, oherwydd gallu Duw yw hi ar waith er iachawdwriaeth i bob un sy'n credu,’* 1:16. Nid yw'r dyn sy'n darganfod y trysor yn ei anwybyddu ac yn ei anghofio. [Dyma a wna llawer gyda efengyl Crist!] Mae'n gweld bod y trysor yn werthfawr.

ii) Mae'r ddaau yn benderfynol o gael y trysor unwaith maent wedi ei ddarganfod. Mae llawer pan yn darganfod yr efengyl yn penderfynu ei bod yn ormod o draferth i'w dderbyn neu bydd yn golygu gormod o newid mewn bywyd neu yn ofni sut bydd teulu a ffrindiau yn ymateb iddynt. Mewn gair, mae'r trysor yn ormod o drafferth! Nid felly i'r ddaau yn ein damhegion. Os ydy person yn ddidwyll

wrth geisio efengyl Crist gallwn fod yn siwr y bydd Duw y Tad yn siwr o'i roi, ond iddo ddod at Dduw yn ffordd Duw, sef trwy ffydd yn lesu.

iii) Mae'r ddau yn 'gwerthu'r cwbl sydd ganddynt' er mwyn cael y trysor/perl. Cofier, ni ellir prynu iachawdwriaeth Duw – rhodd ydyw i'w dderbyn trwy ffydd. Yr hyn gwna'r damhegion gyfleu yw bod y ddau yn barod i symud pob rhwystr er mwyn derbyn y trysor! Beth yw'r rhwystrau? Hen ragfarn – pobl sy'n credu ond iddynt gyflawni hyn a hyn o weithredoedd da mae Duw yn siwr o'u derbyn! Hunan gyfiawnder – Cred eraill, ond iddynt fynd i'r capel bob hyn a hyn, neu offrymu gair o weddi ambell dro neu dderbyn o'r cymun yn achysurol, maent yn siwr o fod yn iawn gyda Duw. Na, medd y gair, rhaid 'gwerthu'r cwbl' sef symud y rhwystrau a derbyn o rad ras Duw. Sylwer, ni wnaeth yr un o'r ddau ofyn i rywun arall i brynu'r tir (lle'r oedd y trysor) na'r perl. Maent yn gweithredu yn bersonol, ac felly mae rhaid ymateb i efengyl Crist. Nid dibynnau ar neb arall i'w sicrhau ond rhaid ymateb yn bersonol i lesu a'i gydnabod yn Arglwydd ac yn Waredwr ar ein bywyd. A oedd yr un ohonynt yn siomedig gyda'u trysor? Na, oherwydd dywed y gair, 'ac yn ei lawenydd y mae'n mynd a gwerthu'r cwbl sydd

ganddo,' 44. 'Llawenydd' a dyma yw profiad pawb sy'n gafael yn nhrysor Crist, y newyddion da amdano Ef.

Gweddi: Diolch, O Dad nefol, am dy ofal cyson drwy'r adeg anodd yma o ganlyniad i'r pandemig. Diolch am y nifer fawr o bobl sydd wedi gweithio'n ddyfal i ymladd y feirws ofnadwy yma ac i roi ryw fath o normalrwydd i fywyd unwaith yn rhagor. Rydym i gyd wedi gweld eisiau cyfarfod a'n gilydd ac yn mawr obeithio y cawn ddychwelyd i'n capeli cyn hir. Diolchwn am lesu, sydd yn Waredwr bendigedig ac yn Arglwydd gofalus. Diolch am Ei efengyl, y newyddion da amdano, sydd yn drysor gwerth ei gael a'i rannu. Cadw ninnau a'r sawl sydd yn annwyl i ni yn ddiogel. Yn enw lesu Grist, Amen.

THE PARABLE OF THE TREASURE AND PEARL.

Hymn: 926 'To God be the glory!'

Reading: Matthew 13:44-46.

Message: Both parables in our reading refer to something valuable, the gospel of Jesus Christ.

1. FINDING TREASURE: In the parables, both men find the treasure differently. The man who found the treasure in the field was not looking for it; the treasure was hidden and he stumbled across it. However, the merchant was searching for fine pearls and after some time found one.

Is this not the spiritual experience of many? Some come to Jesus suddenly, while others come to Him over a period of time. There are people who show no interest in Jesus and who live their lives accordingly, but suddenly they are confronted with the gospel. They see their state as sinners and call out for Jesus' forgiveness. All of this is the work of God.

Others are seeking God but do not truly know Him. They almost despair in their search, but in time find the pearl that they have been seeking, they come to believe in

Jesus. This again is God's work: '*It was not I that found, O Saviour true; No, I was found of thee.*'

2. A PROPER RESPONSE: Though there was a difference in the finding of the treasure/pearl, the response of the 2 was similar. i) Both men realise that the treasure/pearl is valuable. So is the gospel of Jesus! Paul in Romans declared, '*For I am not ashamed of the gospel, for it is the power of God for salvation for everyone who believes,*' 1:16. The man who found the treasure does not ignore it and forget about it. [This is the response of many to the gospel!]. He sees that the treasure is valuable!

ii) Having discovered the treasure both are determined to have it. Many people, having heard the gospel determine that it would be too much trouble to hold on to it, or decide that it would lead to too many changes in their lives or they are worried how their friends will respond. Not so the two in our parables! If a person sincerely seeks the gospel of Jesus, will not the Father give to that person, provided they come to God in God's way.

iii) Both men 'sell all that they have to buy the treasure.' This does not teach that God's salvation can be brought for a price. To 'sell all' means to remove everything that hinders them from receiving the treasure. What hinders?

Old prejudices – certain people believe that only if they undertake some good works, God is certain to receive them. Self-righteousness – Others believe, if only they attend church every now and again, or that they pray from time to time or receive communion occasionally that they also will be received by God. No, the Bible teaches that we must ‘sell all’ and put aside all that hinders us from coming to God through faith in Jesus.

Notice, none of the men ask someone else to purchase the treasure or pearl for them. They respond personally, and that is how we are to respond to the gospel of Jesus. We can not depend on anyone else to secure the gospel for us. We must respond personally to Jesus, acknowledging Him as Lord and Saviour of our lives. Were either of the men disappointed with their treasure? I don’t think so, for it states, *‘Then in his joy he goes and sells all that he has and buys that field,’* 44. ‘Joy’, that is the experience of all who truly find the treasure, the gospel of Jesus Christ.

Prayer: Our Heavenly Father, thank you for your loving care towards us during these difficult days as a consequence of the pandemic. We give thanks for all the people that have laboured faithfully throughout this time,

to fight this virus and to help us to return to some form of normality. We have all felt the loss of meeting up with loved ones both family and friends. We pray that soon we will be able to meet for worship in our churches once again and to fellowship with one another. We thank you for Jesus, our wonderful Saviour and caring Lord. We give thanks for His gospel, the good news about Him, truly a treasure worth receiving and sharing with others. Dear Lord, keep us all safe in these difficult days. Amen.